ATODLEN 3 Rheoliad 20(1),(3)

# RHAN I

## Y CYFNODAU Y MAE'N RHAID CADW COFNODION MEDDYGOL AR EU CYFER

| Math y claf | Isafswm cyfnod cadw |
|---|---|
| (a) (a) Claf oedd o dan 17 oed ar y dyddiad pan ddaeth y driniaeth y mae'r cofnodion yn cyfeirio ati i ben. | Hyd pen-blwydd y claf yn 25ain |
| (b) (b) Claf a oedd yn 17 oed ar y dyddiad pan ddaeth y driniaeth y mae'r cofnodion yn cyfeirio ati i ben. | Hyd pen-blwydd y claf yn 26ain |
| (c) (c) Claf a fu farw cyn cyrraedd 18 oed. | Cyfnod o 8 mlynedd gan ddechrau ar ddyddiad marwolaeth y claf |
| (ch) (ch) Claf a dderbyniodd driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol yn ystod y cyfnod y mae'r cofnodion yn cyfeirio ato. | Cyfnod o 20 mlynedd gan ddechrau ar ddyddiad y cofnod olaf yn y cofnod |
| (d) (d) Claf a dderbyniodd driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol yn ystod y cyfnod y mae'r cofnodion yn cyfeirio ato ac a fu farw tra'n derbyn y driniaeth honno. | Cyfnod o 8 mlynedd gan ddechrau ar ddyddiad marwolaeth y claf |
| (dd) (dd) Claf y mae ei gofnodion yn ymwneud â thriniaeth gan ymarferydd cyffredinol. | Cyfnod o 10 mlynedd gan ddechrau ar ddyddiad y cofnod olaf yn y cofnod |
| (e) (e) Claf sydd wedi cael organ a drawsblannwyd. | Cyfnod o 11 mlynedd gan ddechrau ar ddyddiad marwolaeth neu ryddhad y claf p'un bynnag yw'r cynharaf |
| (f) (f) Pob achos arall. | Cyfnod o 8 mlynedd gan ddechrau ar ddyddiad y cofnod olaf yn y cofnod |

# RHAN II

## Y COFNODION I'W CADW AR GYFER ARCHWILIADAU

**1.** Cofrestr o gleifion, yn cynnwys—

(a) enw, cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni a statws priodasol pob claf;

(b) enw a chyfeiriad a rhif ffôn perthynas agosaf y claf neu unrhyw berson a awdurdodir gan y claf i weithredu ar ran y claf;

(c) enw, cyfeiriad a rhif ffôn ymarferydd cyffredinol y claf;

(ch) pan fo'r claf yn blentyn, enw a chyfeiriad yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu neu y bu iddo ei mynychu cyn iddo gael ei dderbyn i sefydliad;

(d) pan fo claf wedi cael ei dderbyn i warchodaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 enw, cyfeiriad a rhif ffôn y gwarcheidwad;

(dd) enw a chyfeiriad unrhyw gorff a drefnodd bod y claf yn cael ei dderbyn neu a drefnodd ei driniaeth;

(e) y dyddiad pan dderbyniwyd y claf i sefydliad neu pan dderbyniodd y driniaeth a ddarparwyd at ddibenion sefydliad am y tro cyntaf;

(f) natur y driniaeth a gafwyd gan y claf neu y cafodd y claf ei dderbyn i'w chael;

(ff) os yw'r claf wedi bod yn glaf mewnol mewn ysbyty annibynnol, y dyddiad pan gafodd y claf ei ryddhau;

(g) os yw'r claf wedi cael ei drosglwyddo i ysbyty (gan gynnwys ysbyty gwasanaeth iechyd), dyddiad y trosglwyddiad, y rhesymau dros hynny ac enw'r ysbyty y trosglwyddwyd y claf iddo;

(ng) os bydd y claf yn marw tra mewn sefydliad neu yn ystod triniaeth a ddarperir at ddibenion sefydliad, dyddiad, amser ac achos y farwolaeth.

**2.** Cofrestr o'r holl lawdriniaethau llawfeddygol a gyflawnwyd mewn sefydliad, gan gynnwys—

(a) enw'r claf y cyflawnwyd y llawdriniaeth arno;

(b) natur y weithdrefn lawdriniaethol a'r dyddiad pan gafodd ei chynnal;

(c) enw'r ymarferydd meddygol neu'r deintydd a gyflawnodd y llawdriniaeth;

(ch) enw'r anesthetydd a oedd yn bresennol;

(d) enw a llofnod y person a oedd yn gyfrifol am wirio fod pob nodwydd, swab a chyfarpar a ddefnyddiwyd yn y llawdriniaeth wedi'u cymryd yn ôl o'r claf;

(dd) manylion pob dyfais feddygol a fewnblannwyd yn y claf, heblaw pan fyddai hyn yn golygu datgelu gwybodaeth yn groes i ddarpariaethau adran 33(5) o Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990 (cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth).

**3.** Cofrestr o bob achlysur pan ddefnyddiwyd techneg neu dechnoleg y mae rheoliad 41 yn gymwys iddynt, gan gynnwys—

(a) enw'r claf y defnyddiwyd y dechneg neu'r dechnoleg mewn perthynas ag ef;

(b) natur y dechneg neu'r dechnoleg o dan sylw a'r dyddiad y cafodd ei defnyddio;

(c) enw'r person a'i defnyddiodd; ac

(ch) pan nad yw'r person sy'n defnyddio'r dechneg neu'r dechnoleg yn ymarferydd meddygol neu'n ddeintydd, enw'r ymarferydd meddygol neu'r deintydd y defnyddiwyd y dechneg neu'r dechnoleg o dan ei gyfarwyddyd.

**4.** Cofrestr o bob cyfarpar mecanyddol neu dechnegol a ddefnyddiwyd at ddibenion y driniaeth a ddarperir gan y sefydliad, gan gynnwys—

(a) dyddiad prynu'r cyfarpar;

(b) dyddiad gosod y cyfarpar;

(c) manylion cynnal a chadw'r cyfarpar a'r dyddiadau pan wnaed gwaith cynnal a chadw.

**5.** Cofrestr o bob digwyddiad y mae'n rhaid hysbysu'r Cynulliad ohonynt yn unol â rheoliad 27.

**6.** Cofnod o'r sifftiau a drefnwyd ar gyfer bob cyflogai a chofnod o'r oriau a weithiodd bob person mewn gwirionedd.

**7.** Cofnod o bob person sy'n cael ei gyflogi yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad, a hwnnw'n gofnod y mae'n rhaid iddo gynnwys y materion canlynol mewn perthynas ag unigolyn a ddisgrifir yn rheoliad 18(1)—

(a) enw a dyddiad geni y person;

(b) manylion swydd y person yn y sefydliad;

(c) dyddiadau cyflogaeth; ac

(ch) mewn perthynas â phroffesiynolyn gofal iechyd, manylion y cymwysterau proffesiynol perthnasol a chofrestriad y person â'r corff rheoleiddiol proffesiynol perthnasol.